Rheolwr Adnoddau Dynol

Caerdydd c£33k y fl. cyf: CSH103/4

Ffurfiwyd Llais Defnyddwyr yn 2008, ac mae'n gweithio i sicrhau bod defnyddywr yn ganolog i agendâu'r llywodraeth, busnesau a gwasanaethau cyhoeddus. Rydym yn chwilio am ddau weithiwr Adnoddau Dynol profiadol, a fydd yn atebol i'r Pennaeth Adnoddau Dynol, i ymuno â thîm Llais Defnyddwyr yng Nghaerdydd.

Bydd yr ymgeisydd delfrydol yn meddu ar hunangymhelliant ac yn gyfarwydd â datblygu atebion creadigol all gyfrannu'n gadarnhaol at y sefydliad. Mae profiad o ddatblygu dull stwythuredig o ddysgu a datblygu a defnyddio arbenigedd ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth yn hanfodol.

Fel corff llywodraethol anadrannol newydd, gyda Phrif Swyddog Gweithredol a benodwyd yn ddiweddar ac amgylchedd undebol, bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gwerthfawrogi pwysigrwydd cyd-destun sefydliadol wrth gyflwyno ateb Rheolwr Adnoddau Dynol effeithiol.

Anogir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â:

- Gwybodaeth a dealltwriaeth o ddeddfwriaeth cyflogaeth
- Profiad o ddatrys problemau yng nghyd-destun amgylchedd busnes
- Y gallu i integreiddio tystiolaeth o amryw o ffynonellau er mwyn sicrhau gwelliant
- Y gallu i werthuso tystiolaeth mewn modd beirniadol, dod i gasgliadau a chyflwyno darganfyddiadau
- Dealltwriaeth o ddiwylliant a dulliau gweithredu'r sefydliad
- Profiad o gyflwyno a chymhwyso ateb
- Adnabyddiaeth o randdeiliaid allweddol ac effaith atebion a gynigir

Er bod y ddwy swydd wedi'u lleoli yng Nghaerdydd, bydd gofyn i'r deiliaid deithio'n rheolaidd i'n swyddfeydd eraill yn Glasgow a Llundain.

Ewch i www.consumerfocus.org.uk/vacancies am ragor o wybodaeth ac i lawrlwytho ffurflen gais a ffurflen amrywiaeth. E-bostiwch eich ffurflenni wedi'u cwblhau, gan ddyfynnu'r rhif cyfeirnod CSH103/4, i jobs@consumerfocus.org.uk erbyn 12 canol dydd,25eg Mawrth 2010

Mae Llais Defnyddwyr yn ymrwymedig i weithdrefn recriwtio nad yw'n gwahaniaethu'n annheg ar sail rhywedd, statws priodasol, tueddfryd rhywiol, hil, tarddiad ethnig neu enedlaethol, aelodaeth o undeb llafur, cred wleidyddol neu grefyddol, anabledd nac oedran.